

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

22 Medi 2021

Annwyl Jane

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Yn ein cyfarfod ddydd Llun 20 Medi gwnaethom ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU. Mae angen rhagor o wybodaeth ar y Pwyllgor am nifer o faterion. O ystyried ein dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 14 Hydref 2021, byddem yn ddiolchgar o gael ymateb gennych erbyn **hanner dydd ar 30 Medi 2021**.

Cwestiwn 1: Rhoddir cyfiawnhad dros ofyn am gydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau a ganlyn yn fyr ym mharagraff 9 a pharagraff 10 o'r Memorandwm:

Cymal 1 (Cyfamod yr Heddlu);

Cymal 2 (Cynnydd yn y gosb am ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys);

Cymalau 7-8, 10-16, 19-22 (Swyddogaethau'n ymwneud â thrais difrifol); a

Chymalau 23-35 (Adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus).

A oes modd i chi ddarparu manylion ychwanegol i roi esboniad, a chadarnhau, pam y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn?

Cwestiwn 2: Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad i gymal 9, cymal 17 a chymal 18 o'r Bil. Mae hyn oherwydd pryder y byddai'r darpariaethau'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddiadau at ddibenion gorfodi'r ddyletswydd trais difrifol, a allai o bosibl gynnwys cyhoeddi



cyfarwyddiadau ar faterion datganoledig sy'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau datganoledig Cymru. A oes modd i chi egluro pa faterion datganoledig yr ydych yn cyfeirio atynt?

Cwestiwn 3: A oes modd i chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y cymalau a ganlyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac, ar ben hynny, egluro pam y dylai'r Senedd roi ei chydysyniad i'r cymalau hyn:

Cymalau 36-37 a 40-41 (Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig); a
Cymal 43 (Mechnïaeth cyn cyhuddo).

Cwestiwn 4: A oes modd i chi egluro pam na chrybwyllir cymal 38 a chymal 39 yn y Memorandwm, o ystyried eu bod yn rhan o'r gyfres o ddarpariaethau sy'n ymdrin ag echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig (y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried sy'n gofyn am gydsyniad)?

Cwestiwn 5: A oes modd i chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cymal 42 (personau awdurdodedig) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac egluro a yw'n ystyried y dylai'r Senedd roi ei chydysyniad i'r cymal hwnnw?

Cwestiwn 6: A oes modd i chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai effaith cymal 46 (Difrod troseddol i gofebau: dull y treial) fyddai cynyddu'r ddeddfryd bosibl am ddifrod troseddol i garchar am oes mewn amgylchiadau lle'r oedd y diffynnydd yn bwriadu peryglu bywyd neu yn gwneud hynny yn ddi-hid? Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor bod y drosedd hon yn dditiadwy yn unig ac felly ei bod eisoes yn denu'r gosb uchaf o garchar am oes o dan adran 4(1) o *Ddeddf Difrod Troseddol 1971*.

Cwestiwn 7: Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i gymal 59 (Achos niwsans cyhoeddus), a'i bod yn dal yn ôl ei chydysyniad i gymalau 61 i 63 (Gwersylloedd diawdurdod). A allwch chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer y pedwar cymal?

Rwy'n copio'r llythyr hwn at sylw Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 30 Medi.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd